Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Disgrifiad Swydd: Rheolydd Gwybodaeth a Mewnwelediad

**Trosolwg**

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw rhoi cymorth i ddatblygu diwydiant cig coch yng Nghymru sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol ac sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau newidiol y farchnad. Mae gan y sefydliad oddeutu 25 o staff yn y corff cychwynnol, ynghyd â 25–30 arall a gyflogir gan ein his-gwmni. Mae'r naill a'r llall yn gweithredu'n ddwyieithog ac mewn partneriaeth glos â rhanddeiliaid ar draws y sectorau bwyd a pholisi cyhoeddus. Fel corff cyhoeddus Cymreig, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg, ac i gynnal y safonau uchaf o ran llywodraethiant, lles y gweithlu a diwylliant sefydliadol.

**Disgrifiad o'r swydd**

Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, bydd y swydd yn canolbwyntio ar arwain y gefnogaeth i dîm HCC, rhanddeiliaid a chwsmeriaid gyda'r wybodaeth berthnasol i gefnogi datblygiad y diwydiant cig coch yng Nghymru. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar gefnogi gwelliant pellach o ran gwerthiannau byd-eang a'r elw o gynhyrchion cig coch Cymru. Prif amcan y swydd fydd adnabod, caffael a chynnal data addas, yn ogystal â dadansoddi a chynhyrchu gwybodaeth ystyrlon ac amserol. Pan fydd hynny'n addas, bydd yna weithio agos gyda'r Rheolwr Strategaeth a Pholisi'r Dyfodol.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Arwain y broses o drawsnewid HCC i fod yr hyb awdurdodol am wybodaeth a gwybodusrwydd ar gyfer y diwydiant cig coch yng Nghymru. Datblygu ac arwain tîm addas o ddadansoddwyr i ddarparu gwybodaeth amserol ac ystyrlon o'r fferm i'r fforc i ategu tystiolaeth i gefnogi datblygiad y diwydiant cig coch yng Nghymru a gwella'r galw am gynhyrchion cig coch Cymru. Adnabod, caffael a rheoli'r data perthnasol i ategu'r ddarpariaeth o wybodaeth yn ôl gofynion cynllun gweithredol HCC a chydweithredu, lle bo modd, ag endidau eraill.
- Datblygu a chynnal dangosfwrdd cyfnodol o'r diwydiant i ddarparu gwybodaeth am esblygiad y diwydiant o safbwynt economaidd, cynaliadwyedd a galw.
- Darparu data a gwybodaeth ad hoc yn ôl gofynion HCC i gefnogi'r diwydiant a/neu erthyglau neu bapurau sy'n dylanwadu ar bolisi.

- Datblygu a chynnal gwybodaeth addas i ategu targedau datblygu marchnad strategol byd-eang – gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wledydd, sianeli a defnyddwyr.
- Sganio'r gorwel yn barhaus ac adrodd ar dueddiadau defnyddwyr, patrymau galw a phrisio.
- Monitro ac adrodd yn barhaus ar brisiau da byw byd-eang, yn ogystal â'u perthnasedd mewn perthynas â gwledydd a phroteinau eraill.
- Monitro ac adrodd yn barhaus ar argaeledd a rhagolygon da byw yn fyd-eang.
- Gweithio ar y cyd â'r pennaeth cyfathrebu i ddatblygu a chynnal y fethodoleg reolaidd fwyaf effeithiol i ledaenu gwybodaeth sydd yn berthnasol i'r diwydiant ehangach.
- Cynrychioli HCC ar faterion cyhoeddus sy'n ymwneud â gwybodaeth a data am y diwydiant.

## Gwybodaeth a Sgiliau

| **Ffactor** | **Meini Prawf Hanfodol** | **Meini Prawf Manteisiol** |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | Gradd (neu gymhwyster ôl-raddedig) mewn Economeg, Economeg Amaethyddol, Dadansoddeg Data, Ystadegau, neu faes cysylltiedig.<br><br>Profiad sylweddol mewn dadansoddi data, gwybodaeth am y farchnad, neu ddadansoddi economaidd o fewn amaethyddiaeth, systemau bwyd, neu sector cysylltiedig.<br><br>Uwch-sgiliau dadansoddol a meintiol gyda'r gallu i drosi | |

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

| | | |
|---|---|---|
| | data yn fewnwelediadau ystyrlon. | |
| **Profiad a Sgiliau** | Profiad o adnabod, caffael a rheoli setiau data cymhleth o sawl ffynhonnell.<br><br>Profiad o gynhyrchu mewnwelediadau, dangosfyrddau, adroddiadau a phapurau briffio ar gyfer uwch randdeiliaid.<br><br>Meddwl strategol cryf a'r gallu I sganio'r gorwel.<br><br>Sgiliau cryf o ran rheoli rhanddeiliaid, gan gynnwys cydweithio ar draws sefydliadau.<br><br>Yn drefnus iawn gyda'r gallu i gyflwyno dadansoddiad amserol mewn amgylchedd marchnad sy'n symud yn gyflym. | Profiad o fewn y sector cig coch, da byw, neu'r sector bwyd-amaeth ehangach.<br><br>Profiad o weithio gyda chyrff y llywodraeth, sefydliadau'r diwydiant, neu dan amgylchiadau'n ymwneud â pholisi.<br><br>Profiad o fodelau darogan, econometreg, neu fodelu marchnad.<br><br>Bod yn gyfarwydd â metrigau cynaliadwyedd mewn amaethyddiaeth. |